Cenn@d

AWST 21 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 182

# Ffarwelio â'r Parch. Ddr R. Watcyn James yng Ngofalaeth y Garn

Bore Sul, 21 Gorffennaf, daeth cynulleidfa luosog o holl gapeli Gofalaeth y Garn i wasanaeth teimladwy a chofiadwy yng Nghapel y Garn, ar achlysur ymddeoliad eu gweinidog, y Parch. Ddr R. Watcyn James.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am y ddefod o ryddhau'r gweinidog o'i ddyletswyddau.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r gwahanol gapeli oedd yn gyn-gadeiryddion Pwyllgor yr Ofalaeth, yn ogystal â rhai o blant yr ofalaeth, sef Lois, Math, Celt, Iago a Lisi. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan ddau gyn-weinidog yn yr ofalaeth, sef y Parch. Elwyn Pryse a'r Parch. Wyn Morris, a offrymodd weddi dros y gweinidog ac eglwysi'r ofalaeth. Hyfryd hefyd oedd cael cwmni nifer o aelodau teulu Watcyn yn rhan o'r achlysur.

Cyn ein harwain at Fwrdd y Cymun, cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymdeimlad o alwad i bregethu a deimlodd yn ifanc iawn a'r profiad trawsnewidiol a gafodd yn hwyr un noson ger Llyn Tegid pan oedd yn ei arddegau, profiad a'i harweiniodd i'w gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth. Seiliodd ei fyfyrdod ar y geiriau: 'Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato, a bydd y ddau ohonom yn cydfwyta gyda'n gilydd' (Datguddiad 3:20), gan ein hannog ninnau oll i ymateb a derbyn y gwahoddiad drwy ras Duw.

Ar ran aelodau eglwysi'r ofalaeth, cyflwynodd Alwyn Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth, dysteb i'r Parch Watcyn James, gan gyfeirio at ei wasanaeth diflino, ei ymroddiad fel bugail gofalus, yn ogystal â'i bregethu angerddol.



Yna, cyflwynwyd rhodd i Mrs Lowri James gan Heulwen Lewis, yn ogystal â thusw o flodau gan Lois.

Yn dilyn y gwasanaeth, aeth nifer dda o'r aelodau a'r teulu draw i Grefftau Pennau i fwynhau pryd blasus a'r cyfle i gymdeithasu – yn ogystal â rhannu'r gacen arbennig oedd wedi'i pharatoi ar gyfer yr achlysur.

Roedd diolch a gwerthfawrogiad holl eglwysi'r ofalaeth o weinidogaeth gyfoethog y Parch Watcyn James dros y saith mlynedd diwethaf hyn yn amlwg iawn – a dymunwn bob bendith i Watcyn a Lowri ar ddechrau pennod newydd yn eu hanes.

*Marian Beech Hughes*



Undeb Bedyddwyr Cymru
Anerchiad y Llywydd
**Tudalen 3**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 4**

BBC radio cymru


*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 25 Awst, am 7:30yb a 5:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 25 Awst, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Esyllt Môn Roberts, Aberystwyth

## DILLAD GOBAITH

**YN RHOI GOBAITH AC URDDAS I'N CYMUNEDAU**

**MAE ANGEN RHODDION AR FRYS AR GYFER BABANOD A PHLANT**



Rydyn ni'n rhoi dillad o ansawdd da i unigolion a theuluoedd sydd mewn tlodi, mewn angen neu mewn argyfwng yn ein cymunedau yn ne Cymru. Mae dillad yn hanfodol i'n cadw'n gynnes ac i roi inni ymdeimlad o werth ac urddas. Allwch chi helpu teulu sydd mewn angen drwy gyflwyno rhodd neu roi o'ch amser?

Cysylltwch â ni: 07423050392
Gobaithclothing@gmail.com

# Ordeinio Blaenoriaid



O'r chwith i'r dde: Eleri Davies (Capel y Waun, Nantglyn), Elinor Owen ac Alun Jones (Eglwys Unedig Llansannan), Dwynwen Davies (Capel y Waun, Nantglyn) ac Eleri Ll. Jones (Capel y Groes)

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar 13 Gorffennaf, wedi'i threfnu gan Henaduriaeth Dyffryn Clwyd, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan.

Yn ystod yr oedfa ordeiniwyd pedair a chroesawyd un blaenor oedd eisoes wedi ei ordeinio'n flaenor yn Henaduriaeth Dyffryn Conwy yn 1998 i wasanaethu fel blaenoriaid mewn tair o eglwysi Gofalaeth Bro Aled.

Roedd yr oedfa dan ofal y Parch. Ddr Andras Iago (Llywydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd) a Mrs Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth (Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd). Rydym yn croesawu'r pump yn llawen iawn i wasanaethu efo'u cyd-flaenoriaid a'r diaconiaid yn yr ofalaeth ac yn dymuno bendith Duw arnynt wrth iddynt ymroi i'r gwaith.

Rhwydwaith **Daniel Rowland** Network

Diwrnod Daniel Rowland – 6 Medi 10:30-16:00
Canolfan Weinidogaeth Union, Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4DX

Yn cynnwys:

- Addoliad (cyfieithu ar y pryd ar gael)
- Trafod hyfforddiant diwinyddol Cymraeg, adnoddau, a phlannu eglwysi
- Dysgu am amrywiol gyd-destunau Cymreig
- Cyflwyniadau gan Nathan Munday a Gwilym Tudur
- Derbyn casgliad J. Elwyn Davies



Manylion llawn & chofrestru:

# Undeb Bedyddwyr Cymru
# Anerchiad y Llywydd – nos Fawrth, 25 Mehefin 2024 (rhan 1)

A oes dyfodol i eglwys Iesu Grist? Ar un olwg mae pethe'n edrych yn weddol dywyll. Mae nifer yr aelodau yn ein capeli'n mynd yn llai, a'r cyfartaledd oedran yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r sefyllfa ariannol yn gwanhau. Mae nifer ohonom yn byw ar waddol ariannol y gorffennol, h.y. yn gwerthu adeiladau er mwyn cynnal y weinidogaeth.

Ry'n ni'n byw mewn oes seciwlar, ôl-Gristnogol. Byw ydym fel lleiafrif yn wynebu gwrthwynebiadau heriol a dieflig. A oes dyfodol i eglwys Iesu Grist? Mae nifer o'n hadeiladau, er mor annwyl i ni, wedi mynd yn rhai anodd eu cynnal. Mae nifer y bobl sy'n cyflwyno'u hunain i gael eu hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth yn fach ar y cyfan.

Beth felly mae'n ei olygu i ddweud bod dyfodol i eglwys Iesu Grist? Credaf yn yr eglwys. Credaf y bydd eglwys y dyfodol yn cael ei harwain gan dîm, e.e. gweinidog, arweinydd pobl ifanc/plant, gweithiwr gweinyddol, arweinydd addoliad. Nid un gweinidog gyda nifer o eglwysi yw'r ffordd ymlaen, ond un eglwys gyda nifer o 'arweinwyr' fydd yn ffurfio tîm i arwain a gwasanaethu'r eglwys a'r gymuned.

Credaf y bydd eglwys y dyfodol yn cyfarfod yn ganolog ar y Sul, mewn adeilad addas ac yn cyfarfod mewn celloedd wythnosol i astudio'r Beibl, i weddïo, i gymdeithasu ac i rannu bwyd.

Credaf y bydd eglwys y dyfodol yn 'efengyl ganolog' ym mhob dim. Ei bwriad fydd ymgynnull i addoli, i weddïo, i gyhoeddi efengyl Iesu Grist, i sefyll dros gyfiawnder ac i wasanaethu'r gymuned o'i chwmpas yn enw Iesu.

Credaf y bydd yr eglwys yn y dyfodol yn adlewyrchu presenoldeb Duw ymhlith pobl, yn sefyll yn y baw, yn cofleidio'r anghenus a chynnig gobaith i fyd colledig.

Ac mae'r Arglwydd Iesu wedi addo adeiladu ei eglwys: "Ac rwyf fi'n dweud wrthyt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni" (Mathew 16:18). Cawsom gomisiwn gan Iesu i wneud disgyblion o'r holl genhedloedd.

"Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i'r mynydd, lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt. 'Rhoddwyd i mi,' meddai, 'bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.'" (Mathew 28:16–20)

Ond gall y gwaith fod braidd yn dorcalonnus. Er mwyn ein hannog yn y gwaith dwi am sôn am dri darlun sy'n disgrifio eglwys Iesu Grist, yn gweld y darluniau mawr, tragwyddol. Wrth gwrs, ry'n ni'n poeni, yn cenhadu, yn gweddïo, yn brwydro, yn gweithio weithiau yn y niwl, yn y glaw, yn y tywyllwch, ond mae Duw yn gweld y diwedd yn gwbl glir. Mae'r diwedd yn oleuni pur iddo Ef. Mae dyfodol yr Eglwys yn gwbl ddiogel yn ei ddwylo Ef.

**A. Y ddinas** – y darlun cyntaf yw'r darlun o'r ddinas.

1. **Duw sy'n adeiladu'r ddinas**. Yn ystod y misoedd diwethaf, yn ein dosbarthiadau beiblaidd ar brynhawn a nos Lun, ry'n ni wedi bod yn astudio llyfr y proffwyd Sechareia. Yn draddodiadol, rhennir proffwydi'r Hen Destament yn ddau grŵp: y proffwydi mawr, sef Eseia, Jeremeia, Eseciel a Daniel, a'r gweddill, y proffwydi bach. Pwy fentrodd awgrymu fod Sechareia ymhlith y proffwydi bach? Credaf ei fod ymhlith y mwyaf. Gall sefyll ochr yn ochr ag Eseia, yn fy marn i, oherwydd ei gyfraniad i'n dealltwriaeth o'r efengyl, person Crist, gwaith yr Ysbryd Glân, a gogoniant Duw ymhlith ei bobl.

"Cyhoedda, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd: 'Dychwelaf i Jerwsalem mewn trugaredd ac adeiledir fy nhŷ ynddi,' medd ARGLWYDD y Lluoedd, 'ac estynnir llinyn mesur dros Jerwsalem.' Cyhoedda hefyd, Fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd: 'Bydd fy ninasoedd eto'n orlawn o ddaioni; rhydd yr ARGLWYDD eto gysur i Seion, a bydd eto'n dewis Jerwsalem.' " (Sechareia 1:13–17)

Wrth gwrs, sôn y mae'r proffwyd am weledigaeth o Dduw yn ailadeiladu Jerwsalem wedi i'w bobl ddychwelyd o gaethiwed Babilon. Bydd yn adeiladu ei ddinas er gogoniant iddo Ef ei hun ac er lles y bobl. Gwelodd Sechareia ddyn â llinyn mesur yn ei law, oherwydd roedd Duw ar fin gweithredu i adeiladu. Pwrpas yr adeiladu yw creu lle diogel i'w bobl fyw a'i addoli Ef. A'r un pryd, creu dinas er mwyn i Dduw ddatguddio'i ogoniant a denu'r cenhedloedd.

"Pan edrychais i fyny, gwelais ŵr â llinyn mesur yn ei law, a dywedais, 'Ble'r wyt ti'n mynd?' Atebodd, 'I fesur Jerwsalem, i weld beth yw ei lled a beth yw ei hyd.' Wrth i'r angel oedd yn siarad â mi ddod allan, daeth angel arall i'w gyfarfod, a dweud wrtho, 'Rhed i ddweud wrth y llanc acw, "Bydd Jerwsalem yn faestrefi heb furiau, gan mor niferus fydd pobl ac anifeiliaid ynddi. A byddaf fi," medd yr ARGLWYDD, "yn fur o dân o'i hamgylch, a byddaf yn ogoniant yn ei chanol".'"

Wrth ddarllen y darn am y llinyn mesur yn cael ei ymestyn dros y ddinas, dychmygais weld ei linyn mesur ef yn cael ei ymestyn dros Sir Benfro a theimlo cyffro fod yr Arglwydd yn adeiladu ei Eglwys yn ein plith.

A'r peth mawr i Sechareia oedd gwybod fod yr Arglwydd yn fur o dân o gwmpas ei bobl ac y byddai'n datguddio'i ogoniant yn eu plith. A dyma'r weddi'n codi o ddyfnder f'enaid dros Sir Benfro, "O Arglwydd bydd yn fur o dan o gwmpas dy bobl." Mae nifer o ddylanwadau negyddol a dieflig yn codi yn erbyn pobl Dduw, yn ein sir ac yn ein gwlad, ond mae'r Arglwydd yn addo bod yn fur o dân o'n hamgylch a datuddio'i ogoniant yn ein plith. Duw sy'n adeiladu'r ddinas i'w ogoniant ef ei hun.

2. **Duw sy'n llenwi'r ddinas â phobl wedi eu hachub o'r tân**. Ganwyd John Wesley yn 1703 yn y rheithordy yn Epworth, Swydd Lincoln. Pan oedd yn chwech oed, nos Sadwrn, 9 Chwefror 1709, aeth y rheithordy ar dân. Rhedodd pawb ma's, ond wedi cyfrif pob un deallodd y teulu fod un o'r plant ar goll, John. Roedd y fflamau mor ofnadwy nes y methodd y tad, Samuel Wesley, fynd 'nôl mewn i'r adeilad. Gwelwyd John yn un o ffenestri'r llofft. Ffurfiwyd ysgol o bobl i ymestyn lan a chipio John o'r fflamau jyst cyn i'r to ddisgyn i'r llawr. Yn dilyn y digwyddiad, disgrifiodd Susanna Wesley ei mab fel 'marworyn wedi ei arbed o'r tân'.

Dyfynnu wnaeth Susanna Wesley o lyfr y proffwyd Sechareia: "'Onid marworyn wedi ei arbed o'r tân yw hwn?' Yr oedd Josua yn sefyll o flaen yr angel mewn dillad budron; a dywedodd yr angel wrth ei osgordd, 'Tynnwch y dillad budron oddi amdano.' Dywedodd wrth Josua, 'Edrych fel y symudais dy euogrwydd oddi wrthyt, ac fe'th wisgaf â gwisgoedd gwynion.'" (Sechareia 3:3–4)

Dyma ddarlun hyfryd o waredigaeth, un wedi cael ei arbed o'r tân, ei ddillad brwnt wedi cael eu tynnu ac yntau wedyn yn cael ei wisgo â dillad glân. Diolch i Dduw am gyfiawnder yr Arglwydd Iesu Grist, y wisg lân sydd gennym trwy drugaredd Duw. Duw sy'n llenwi'r ddinas â phobl wedi eu hachub o'r tân. Duw sy'n llenwi ei eglwys â phobl wedi eu hachub o'r tân.

3. **Duw sy'n cynnal ei ddinas trwy weinidogaeth ei Ysbryd**. Ni allwn adeiladu'r ddinas yn ein nerth ein hunain. Rhaid dibynnu ar nerth,



*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Undeb Bedyddwyr Cymru*
*Anerchiad y Llywydd – nos Fawrth, 25 Mehefin 2024 (rhan 1)*
*(parhad o dudalen 2)*

cynhaliaeth a grym yr Ysbryd Glân. Gwelir hyn eto yng ngeiriau Sechareia ynglŷn â gweledigaeth y ganhwyllbren:

“Dychwelodd yr angel oedd yn siarad â mi, a’m deffro fel rhywun yn deffro o’i gwsg, a dweud wrthyf, ‘Beth a weli?’ Atebais innau, ‘Yr wyf yn gweld canhwyllbren, yn aur i gyd, a’i badell ar ei ben; y mae iddo saith o lampau a saith o bibellau i’r lampau arno; y mae dwy olewydden gerllaw iddo, un ar dde’r badell a’r llall ar ei chwith.’ Gofynnais i’r angel oedd yn siarad â mi, ‘Beth yw’r rhain, f’arglwydd?’ Ac atebodd yr angel oedd yn siarad â mi, ‘Oni wyddost beth yw’r rhain?’ Dywedais, ‘Na wn i, f’arglwydd.’ Yna dywedodd wrthyf, ‘Dyma air yr ARGLWYDD at Sorobabel: “Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd,” medd ARGLWYDD y Lluoedd’.” (Sechareia 4:1–5)

Dyma’r weledigaeth, y canhwyllbren aur â dwy olewydden, un ar y dde a’r llall ar y chwith, yn bwydo’r fflam, yn cadw’r golau ynghyn. Gyda’r weledigaeth daeth y datganiad, “‘Nid trwy lu ac nid trwy nerth ond trwy fy ysbryd,’ medd Arglwydd y Lluoedd.” Mae holl nerth yr Ysbryd Glân o’n plaid, ar ein cyfer, i gadw’r fflam ynghyn yma yn ein sir ac yn ein gwlad.

Dychmygaf weld map enfawr o Sir Benfro ac eglwys Iesu Grist fel canhwyllbren aur yn y sir a’r ddwy olewydden bob ochr iddi yn sicrhau cyflenwad o olew. Duw sy’n cynnal ei ddinas trwy weinidogaeth ei Ysbryd.

*Geraint Morse*

*(I’w barhau)*

# O Gefn Gwlad

## Ofn

Rydw i bron yn siŵr imi gyfeirio rywdro o’r blaen at y Parchedig J. T. Roberts, ond roedd o’r math o berson y gellid sôn amdano’n aml. Gweinidog Cerrigydrudion oedd o pan oeddwn i’n ifanc, ac yn mynd, fel llawer o ieuenctid y dyddiau hynny, i’r capel yn rheolaidd. A JT, fel y gelwid ef, oedd ffefryn mawr pob un ohonom. Roedd o’n bregethwr hir ond doedd neb yn malio. A’r gwir yw y gallai chwarter awr gan ambell bregethwr fod yn faith!

Roedd o’n hollol wahanol i bob pregethwr arall a gaem yng Ngwyddelwern, a doedd wybod beth dd’wedai o nesa. Falle imi grybwyll o’r blaen iddo unwaith ddatgan ei fod wedi darllen llyfr ofnadwy o ddiddorol sef: *The sexual habits of bees*. Ie, un felly oedd JT – un eang ac amrywiol ei ddarllen. Ac fe fyddai ei gynulleidfaoedd yn elwa o ffrwyth y darllen eang hwnnw.

Roedd ganddo ddywediadau bachog, cofiadwy. A dyma un a nodwyd gen i flynyddoedd yn ôl, pan oedd o’n trafod ‘ofn’, mae’n debyg: ‘Ofn sy’n diogelu bywyd, ond pan â allan o drefn gall ddifetha bywyd.’

Fe’i croniclais, siŵr o fod, am iddo ddatgan yr annisgwyl, a dweud y lleia. Onid melltith yw ofn, sy’n gallu andwyo bywyd, ein gwneud yn anniddig ac yn anhapus o leia, ac yn sicrhau nad oes blas ar fyw?

Ond os ystyriwn yr hyn dd’wedodd o, gan gofio iddo ddatgan hefyd y gall ddifetha bywyd os na chaiff ei reoli, yr oedd yn llygad ei le! Beth sy’n ein cadw bob un rhag rhedeg i’r môr neu blymio i afon gan fod i ddŵr ei dynfa arbennig, onid ofn boddi? Beth sy’n ein cadw ni sy’n dreifio rhag gyrru fel ffyliaid pan mae amgylchiadau’n caniatáu hynny? Onid ofn cael damwain? Y mae i’n mynyddoedd eu tynfa ryfeddol, a daeth bywyd llawer un i ben am iddo ryfygu’n ormodol, a hynny am nad oedd ofn arno.

Fodd bynnag, yn hytrach na phentyrru enghreifftiau, dyma fynd at wir reswm sgrifennu’r erthygl hon, sef cyfeirio at ofni Duw. ‘Ofna Dduw,’ meddai’r gorchymyn yn y Beibl, ac fe fu hyn yn broblem ac yn boen i mi pan oeddwn i’n ifanc.

Wrth ymarfer ar gyfer drama’r Samariad Trugarog y rhois i’r gusan gynta i ferch, a hynny yn y pwlpud, pan oedd y ddau ohonom yn cuddio megis lladron yn barod i ymosod ar y teithiwr, oedd yn cerdded ar draws y sêt fawr o Jerwsalem i Jericho. Ddau neu dri Sul yn ddiweddarach clywais bregethwr yn cyfeirio at y ‘pechodau ysbrydol yn y nefolion leoedd’ ac fe arswydais wrth feddwl fod y pwlpud yn sicr yn un o’r nefolion leoedd! Rhaid bod Duw wedi dweud wrtho am fy mhechod i a’r ferch. Yr argol, digon i’m cadw’n effro’r nos!

Diniwed? Oeddwn, fel llawer y dyddiau hynny oedd yn cael eu harswydo gan bregethu am ofni Duw, a phwysigrwydd paratoi ar gyfer ei ddyfod, fel y dywed yr emyn ddysgais i’n blentyn, yn farnwr ar ‘glaer gymylau tanllyd’, a’r sôn am ‘wae neu ddydd o wynfyd’. Ofni tân a brwmstan uffern hefyd. A llawer un yn cyfeirio at yr ofn hwnnw fel parchedig ofn, beth bynnag ar y ddaear yr oedd hynny’n ei olygu! Credinwyr y dydd, mae’n siŵr, wedi etifeddu’r syniad cyntefig o dduw a duwiau yr oedd yn rhaid i drigolion daear fod am eu bywydau rhag pechu yn eu herbyn, a chredu mewn diafol oedd wrthi ddydd a nos efo’i dân yn llosgi pechaduriaid.

Y fath wiriondeb! Ac mi wn fod rhai yn dal i gredu felly. Ydw, rydw i’n credu mewn uffern, yr uffern y gallwn ei chreu i ni ein hunain ac i eraill. Ond siawns nad ofni cael ein bwrw i dân tragwyddol yw ofni Duw. Pan ddois i ar draws dyfyniad JT a chofio’r pregethu ofn, mi es ati i geisio darganfod beth a olyga hyn.

Mae sawl esboniad a diffiniad i’w cael gan wahanol awduron ar yr ofn hwnnw, sy’n profi falle nad oes neb yn siŵr iawn beth ydyw! Yr un oedd yn fy modloni i fwyaf, am wn i, oedd yr un oedd yn datgan mai ei ystyr yw rhoi i Dduw ein holl sylw, edrych arno mewn rhyfeddod, y rhyfeddod mwyaf un, ei gydnabod yn grëwr a chynhaliwr, a rhoi iddo ein teyrngarwch llwyr. Tipyn gwell na’r ofn cyntefig, ond nefi, mae hyn i gyd yn dipyn o ofyn, yn tydi! Yn ddigon o ofn, falle, i’n cadw’n effro’r nos! Biti na fyddai JT yn dal yn fyw; gallwn ei holi o gan wybod y cawn ganddo ateb call.

*Elfyn Pritchard*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru